Dŵr Cymru
Welsh Water

# Dogfen Taliadau Cyfanwerthu Dangosol

2026/27

dwrcymru.com

# Cynnwys

Cyflwyniad 3

Adran 1 - Tablau Crynhoi'r Prif Daliadau 4

Adran 2 - Gwybodaeth Ategol am y Prif Daliadau 8

Adran 3 - Diffiniadau 9

# Cyflwyniad

Cyhoeddwyd y fersiwn hon o Ddogfen Tariffau Cyfanwerthu Dangosol Dŵr Cymru Welsh Water 2026/27 am y tro cyntaf yn Hydref 2025. Mae hyn yn gyson â chanllawiau Ofwat, sy'n nodi y dylai'r prif daliadau cyfanwerthu dangosol gael eu cyhoeddi o leiaf tri mis cyn cyhoeddi'r taliadau cyfanwerthu terfynol.

Mae'r ddogfen yn nodi'r prif daliadau dangosol y disgwylir iddynt fod yn berthnasol i gwmnïau manwerthu sy'n gwasanaethu cwsmeriaid â safle cymwys yn ardal gweithredu Dŵr Cymru Welsh Water. Mae'r newidiadau'n seiliedig ar y wybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd, gan gydnabod y gellir diwygio'r taliadau dangosol hyn yn sgil effeithiau posibl penderfyniadau Ofwat o fewn y cyfnod rhwng amser y cyhoeddiad hwn ac amser pennu'r taliadau terfynol.

Yn unol â hynny, gallai'r taliadau terfynol a gyhoeddir ym mis Ionawr 2026 fod yn wahanol oherwydd rhagdybiaethau isorweddol gan gynnwys yr union CPIH ym mis Tachwedd. Mae'r tariffau cyfanwerthu dangosol yma'n seiliedig ar y rhagolygon diweddaraf am gyfradd y CPIH, sef 3.8%.

Cyfnod gweithredol y taliadau hyn fyddai 1 Ebrill 2026 i 31 Mawrth 2027.

Mae'r ddogfen hon yn pennu'r taliadau cyfanwerthu dangosol perthnasol gyda chanllawiau ar sut y caiff y taliadau eu cymhwyso. Am fanylion y rhwymedigaethau cyfreithiol, gweler y Cod Cyfanwerthu-Manwerthu a'r Contract Cyfanwerthu.

## Atebolrwydd am daliadau

Anfonir anfonebau am y prif daliadau yn unol ag Amserlen Bilio Cyfanwerthu'r Cwmni. Codir tâl ar bob Manwerthwr am gyflenwi Gwasanaethau Dŵr ar gyfer SPIDs sydd wedi cofrestru ag ef adeg darparu'r gwasanaethau. Codir taliadau am eiddo gwag yn unol â Chodau'r Farchnad.

## Rhestrau taliadau eraill

**Y Rhestr Taliadau**
Taliadau dŵr a charthffosiaeth ar gyfer cwsmeriaid preswyl a dibreswyl.

**Rhestr Taliadau Gwasanaethau Datblygwyr**
Taliadau am gysylltiadau newydd a gweithgareddau eraill i gynorthwyo Datblygwyr.

**Gwybodaeth am Daliadau ar gyfer Penodiadau Newydd ac Amrywiadau (NAVs)**
Y fethodoleg ar gyfer codi tâl amm swmp-gyflenwadau a thaliadau perthnasol eraill ar gyfer NAVs.

## Sut i gysylltu â ni

**Ffôn**
0800 2605053 (24 awr)

**Ar-lein**
wholesale.dwrcymru.com

**E-bost**
WholesaleServiceCentre@dwrcymru.com

**Post**
Canolfan Gwasanaeth Cyfanwerthu Dŵr Cymru Welsh Water
Blwch Post 3164
Caerdydd
CF30 0FF

Ein horiau swyddfa i dderbyn gohebiaeth yw 8am i 6pm dydd Llun i ddydd Gwener (heblaw am wyliau banc)

# Adran 1 - Tablau Crynhoi'r Prif Daliadau

## Dŵr Yfadwy Mesuredig - Tabl 1

| Disgrifiad | Uned | Tâl (£) | Cod y Tariff CMOS | Enw'r Tariff CMOS | Elfen Tâl CMOS | Enw Elfen y Tâl CMOS |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Maint mesurydd hyd at 20mm | £/ blwyddyn | 18.39 | Amrywiol | Perthnasol i bob tariff dŵr mesuredig | D7101 | Taliadau Sefydlog Mesurydd Dŵr Yfadwy Mesuredig |
| Mesurydd maint 25mm | £/ blwyddyn | 18.39 | Amrywiol | Perthnasol i bob tariff dŵr mesuredig | D7101 | Taliadau Sefydlog Mesurydd Dŵr Yfadwy Mesuredig |
| Mesurydd maint 30mm | £/ blwyddyn | 218.01 | Amrywiol | Perthnasol i bob tariff dŵr mesuredig | D7101 | Taliadau Sefydlog Mesurydd Dŵr Yfadwy Mesuredig |
| Mesurydd maint 40mm | £/ blwyddyn | 218.01 | Amrywiol | Perthnasol i bob tariff dŵr mesuredig | D7101 | Taliadau Sefydlog Mesurydd Dŵr Yfadwy Mesuredig |
| Mesurydd maint 50mm | £/ blwyddyn | 218.01 | Amrywiol | Perthnasol i bob tariff dŵr mesuredig | D7101 | Taliadau Sefydlog Mesurydd Dŵr Yfadwy Mesuredig |
| Mesurydd maint 65mm | £/ blwyddyn | 886.08 | Amrywiol | Perthnasol i bob tariff dŵr mesuredig | D7101 | Taliadau Sefydlog Mesurydd Dŵr Yfadwy Mesuredig |
| Mesurydd maint 80mm | £/ blwyddyn | 886.08 | Amrywiol | Perthnasol i bob tariff dŵr mesuredig | D7101 | Taliadau Sefydlog Mesurydd Dŵr Yfadwy Mesuredig |
| Mesurydd maint 100mm | £/ blwyddyn | 886.08 | Amrywiol | Perthnasol i bob tariff dŵr mesuredig | D7101 | Taliadau Sefydlog Mesurydd Dŵr Yfadwy Mesuredig |
| Mesurydd maint >100mm | £/ blwyddyn | 1814.08 | Amrywiol | Perthnasol i bob tariff dŵr mesuredig | D7101 | Taliadau Sefydlog Mesurydd Dŵr Yfadwy Mesuredig |
| Tâl cyfeintiol safonol am ddŵr yfadwy 0.5Ml i 50Ml | £/$m^3$ | 2.0179 | DC-PW-LT50 | Cyfradd Safonol Dŵr Yfadwy | D7103 | Taliadau Sefydlog Mesurydd Dŵr Yfadwy Mesuredig |
| Tâl cyfeintiol safonol am ddŵr yfadwy <0.5Ml | £/$m^3$ | 2.0179 | DC-PW-LT0.5 | Cyfradd Safonol Dŵr Yfadwy | D7103 | Taliadau Sefydlog Mesurydd Dŵr Yfadwy Mesuredig |

## Dŵr Yfadwy Mesuredig - Tabl 1

| Disgrifiad | Uned | Tâl (£) | Cod y Tariff CMOS | Enw'r Tariff CMOS | Elfen Tâl CMOS | Enw Elfen y Tâl CMOS |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Tariff Diwydiannol Band | £/ blwyddyn | 30829.83 | DC-PW-50-99 | Dŵr Yfadwy 50-99ML | D7102 | Taliadau Sefydlog Mesurydd Dŵr Yfadwy Mesuredig |
| Tariff Diwydiannol Band 1 | £/m³ | 1.4013 | DC-PW-50-99 | Dŵr Yfadwy 50-99ML | D7103 | Tariff Bloc Dŵr Yfadwy Mesuredig |
| Tariff Diwydiannol Band 2 | £/ blwyddyn | 33994.99 | DC-PW-100-249 | Dŵr Yfadwy 100-249ML | D7102 | Taliadau Pwynt Cyflenwi Sefydlog Dŵr Yfadwy Mesuredig |
| Tariff Diwydiannol Band 2 | £/m³ | 1.3696 | DC-PW-100-249 | Dŵr Yfadwy 100-249ML | D7103 | Tariff Bloc Dŵr Yfadwy Mesuredig |
| Tariff Diwydiannol Band 3 | £/ blwyddyn | 70208.91 | DC-PW-GT250 | Dŵr Yfadwy GT 250Ml | D7102 | Taliadau Pwynt Cyflenwi Sefydlog Dŵr Yfadwy Mesuredig |
| Tariff Diwydiannol Band 3 | £/m³ | 1.2248 | DC-PW-GT250 | Dŵr Yfadwy GT 250Ml | D7103 | Tariff Bloc Dŵr Yfadwy Mesuredig |

## Dŵr Anyfadwy Mesuredig - Tabl 2

| Disgrifiad | Uned | Tâl (£) | Cod y Tariff CMOS | Enw'r Tariff CMOS | Elfen Tâl CMOS | Enw Elfen y Tâl CMOS |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Mesurydd maint 20mm i 150mm+ | £/ blwyddyn | | Amrywiol | Gweler y taliadau yn y tabl dŵr yfadwy uchod | D7151 | Taliadau Sefydlog Mesurydd Dŵr Anyfadwy Mesuredig |
| Tâl cyfeintiol dŵr crai safonol | £/$m^3$ | 1.7169 | DC-RW-LE50 | Dŵr Crai LE 50ML | D7153 | Tariff Bloc Dŵr Anyfadwy Mesuredig |
| Tariff Diwydiannol - dŵr crai | £/ blwyddyn | 65018.34 | DC-RW-GT50 | Dŵr Crai GT 50ML | D7152 | Taliadau Sefydlog Mesurydd Dŵr Anyfadwy Mesuredig |
| Tariff Diwydiannol - dŵr crai | £/$m^3$ | 0.4719 | DC-RW-GT50 | Dŵr Crai GT 50ML | D7153 | Tariff Bloc Dŵr Anyfadwy Mesuredig |
| Tâl cyfeintiol safonol dŵr wedi ei drin yn rhannol | £/$m^3$ | 1.8485 | DC-PT-LT50 | LT wedi ei drin yn rhannol 50ML | D7153 | Tariff Bloc Dŵr Anyfadwy Mesuredig |
| Tariff Diwydiannol -dŵr wedi ei drin yn rhannol | £/ blwyddyn | 63666.67 | DC-PT-GT50 | GT wedi ei drin yn rhannol 50ML | D7152 | Taliadau Pwynt Cyflenwi Sefydlog Dŵr Anyfadwy Mesuredig |
| Tariff Diwydiannol -dŵr wedi ei drin rhannol | £/$m^3$ | 0.6220 | DC-PT-GT50 | GT wedi ei drin yn rhannol 50ML | D7153 | Tariff Bloc Dŵr Anyfadwy Mesuredig |

## Cytundebau Arbennig - Tabl 3

| Disgrifiad | Uned | Tâl (£) | Cod y Tariff CMOS | Enw'r Tariff CMOS | Elfen Tâl CMOS | Enw Elfen y Tâl CMOS |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **WSHNONPOT10a a WSHNONPOT10** | £/m$^3$ | 0.4821 | DC-PT-SAG | SAG wedi ei drin yn rhannol | D7153 | Tariff Bloc Dŵr Anyfadwy Mesuredig |

Mae'r pris fesul m$^3$ yn cael ei gymhwyso fel canran o'r tâl a nodir yn CMOS

## Taliadau dŵr a godir pan nad oes cyflenwad - Tabl 4

| Disgrifiad | A: Taliadau sefydlog a chyfeintiol | B: Dim taliadau'n gymwys | C: Taliadau cyfeintiol yn unig |
|---|---|---|---|
| Dull o Godi Tâl ar Eiddo Gwag | X | | |
| Dull o Godi Tâl am Ddatgysylltu Dros Dro | | | X |

# Adran 2 – Gwybodaeth Ategol am y Prif Daliadau

## Y Prif Daliadau

Codir taliadau sefydlog fesul diwrnod calendr. Mae taliadau cyfeintiol am ddŵr yn seiliedig ar y dŵr a ddefnyddir wedi ei fesur gan y mesurydd mewn metrau ciwbig, oni bai bod y Cwmni'n cytuno ar addasiad cyfeintiol am ddŵr a ddefnyddir at ddibenion diffodd tân, neu sy'n cael ei golli trwy ollyngiadau fel a nodir isod:

### Dŵr at ddibenion diffodd tân

Gellir codi tâl am yr holl ddŵr a ddefnyddir heblaw dŵr a ddefnyddir yn unswydd at ddibenion diffodd tân neu brofi. Gellir codi tâl am ddŵr a ddefnyddir ar gyfer profion ac ymarferion tân oni roddir 7 diwrnod o rybudd yn ysgrifenedig i'r Cwmni.

### Lwfansau am ollyngiadau

Telir lwfansau am daliadau cyfeintiol am ddŵr ar gyfer safleoedd di-breswyl[1] dim ond lle'r Cwmni oedd yn gyfrifol am y gollyngiad.

Rhoddir lwfans dŵr i safleoedd defnydd cymysg e.e. eiddo dibreswyl wedi eu cyfuno ag aelwyd, er enghraifft, Campws Prifysgol â bloc llety sy'n cael ei feddiannu fel cartref parhaol, ar elfen breswyl y bil yn unig. Cyfrifir lwfans yr elfen breswyl yn seiliedig ar y ffigurau defnydd blynyddol y mae'r Cwmni'n eu defnyddio i gyfrifo ein tariff mesuredig preswyl wedi ei fesur a nodir yn y Rhestr o Daliadau.

Rhaid cyflwyno'r cais am y lwfans cyn pen chwe mis ar ôl i'r gollyngiad gael ei drwsio. Ni roddir unrhyw lwfansau os cafodd y gollyngiad ei achosi gan esgeulustra'r cwsmer neu rywun sy'n gweithredu ar ran y cwsmer.

## Y tariff diwydiannol am ddŵr yfadwy

Mae'r tariff diwydiannol am ddŵr yfadwy yn cynnwys sawl band sy'n adlewyrchu defnydd blynyddol.

Mae Tabl 1 yn dangos y tariffau cyfanwerthu ar gyfer defnyddwyr mawr ym mhob un o'r pump band cyflenwi sy'n defnyddio dros 50 megalitr (Ml) neu 50,000m³ y flwyddyn.

Mae pob band yn berthnasol i unrhyw ddefnydd rhwng 1 Ebrill 2026 a 31 Mawrth 2027, ac mae'n cynnwys:

- Tâl sefydlog am y flwyddyn;
- Tâl gwasanaeth blynyddol am bob mesurydd sy'n gwasanaethu'r safle yn seiliedig ar faint y mesurydd (a ddangosir yn Nhabl 1) a;
- Thâl cyfeintiol am yr holl ddŵr a ddefnyddir.

## Y tariff diwydiannol am ddŵr anyfadwy

Mae'r tariff diwydiannol am ddŵr anyfadwy ar gael ar gyfer cyflenwadau o ddŵr sydd wedi cael ei drin yn rhannol a dŵr crai, yn dibynnu a yw'r cyflenwad yn cael unrhyw driniaeth. Mae Tabl 2 yn dangos y tariffau cyfanwerthu am ddŵr anyfadwy.

Mae pob band yn berthnasol i unrhyw ddefnydd rhwng 1 Ebrill 2026 a 31 Mawrth 2027, ac mae'n cynnwys:

- Tâl sefydlog am y flwyddyn;
- Tâl gwasanaeth blynyddol am bob mesurydd sy'n gwasanaethu'r safle yn seiliedig ar faint y mesurydd (a ddangosir yn Nhabl 1) a;
- Thâl cyfeintiol am yr holl ddŵr a ddefnyddir.

### Ceisiadau i newid tariff

Ni fydd y Cwmni'n derbyn mwy nag un cais y mis calendr am newid tariff dŵr yfadwy a dŵr anyfadwy mewn unrhyw Bwynt Cyflenwi unigol.

## Taliadau am eiddo gwag a chyflenwadau a ddatgysylltwyd

Mae Tabl 4 yn nodi'r taliadau a fydd yn berthnasol pan fo eiddo'n wag a lle bo dŵr yn cael ei ddefnyddio ar gyflenwad a ddatgysylltwyd.

1 Gall eiddo dibreswyl fod â hawl i lwfans carthffosiaeth am y gollyngiad cyntaf lle nad yw'r dŵr a gollwyd oherwydd gollyngiad wedi dychwelyd i'r garthffos.

# Adran 3 – Diffiniadau

Yn y ddogfen hon, oni bai bod y cyd-destun yn mynnu fel arall:

'**Cwmni**' yw Dŵr Cymru Cyfyngedig.

'**Cysylltiad**' yw cysylltiad sy'n cael ei reoleiddio gan y Ddeddf a deddfwriaeth berthnasol arall y caiff y cwsmer fudd gwasanaethau'r Cwmni drwyddi.

'**Datgysylltiad dros dro**' yw unrhyw ddatgysylltiad dros dro i Wasanaethau Dŵr nad yw'n Ddatgysylltiad Parhaol, a chaiff "Wedi Datgysylltu Dros Dro" ei dehongli yn unol â hynny.

'**Datgysylltiad parhaol**' yw unrhyw ddatgysylltiad ffisegol o ran Gwasanaethau Dŵr lle bo cysylltiad â'r Rhwydwaith yn cael ei ddileu neu ei wneud yn anymarferol fel arall, fel na ellir cyflenwi Gwasanaethau Dŵr ar y pwynt yma eto heb greu cysylltiad newydd, a chaiff 'Datgysylltu'n Barhaol' ei ddehongli yn unol â hynny.

'**Deddf**' yw Deddf y Diwydiant Dŵr 1991 ac unrhyw ddiwygiadau iddi.

'**Dŵr anyfadwy**' yw dŵr na fwriedir iddo gyrraedd y safonau iachusrwydd a nodir mewn rheoliadau a wnaed o dan Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991.

'**Dŵr yfadwy**' yw dŵr y bwriedir iddo gyrraedd y safonau iachusrwydd a nodir mewn rheoliadau a wnaed o dan Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991.

'**Endid achrededig**' yw endid sy'n cael ei werthuso a'i achredu'n annibynnol o dan gynllun achredu a sefydlwyd gan y Cyfanwerthwr Contractio fel un sy'n hyfedr i gyflawni rhai gweithgareddau penodol. Un o'r achrediadau hyn yw **Cynllun LRQA y Diwydiant Dŵr** – Endid Achrededig (WIRSAE), sy'n cymeradwyo darparwyr i gyflawni gweithgareddau penodol ar gyfer Manwerthwyr yn hytrach na'r Cyfanwerthwr perthnasol.

'**Manwerthwr**' yw deiliad Awdurdodiad Cyfyngedig i Fanwerthu, awdurdodiad a ddisgrifir ym mharagraff 6, atodlen 2A o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 h.y. awdurdodiad i ddefnyddio system gyflenwi Ymgymerydd a leolir yn llwyr neu'n bennaf yng Nghymru at ddibenion caniatáu i'r manwerthwr gyflenwi gwasanaethau manwerthu ar gyfer safleoedd cymwys sy'n defnyddio 50 megalitr neu ragor o ddŵr y flwyddyn; neu Dîm Manwerthu Masnachol y Cwmni.

'**Mesurydd anfasnachol**' yw mesurydd dŵr nad yw'n gofrestredig i Bwynt Cyflenwi, sy'n eiddo i Ymgymerydd, ac sy'n fesurydd diddwythol ar Rwydwaith o Fesuryddion.

'**Pibell gyflenwi**' yw unrhyw ran o bibell wasanaeth na ellir, neu na ellid mynnu bod y cwmni yn ei gosod o dan Adrannau 45 a 46 o'r Ddeddf.

'**Pibell wasanaeth**' yw'r bibell (neu ran o'r bibell) a ddefnyddir i gyflenwi dŵr o brif bibell ddŵr y Cwmni i unrhyw safle, ac fe'i diffinnir yn adran 219 o'r Ddeddf.

'**Prif Dâl/Daliadau**' yw'r holl daliadau yn y Ddogfen Taliadau Cyfanwerthu sy'n ymwneud â chyflenwi Gwasanaethau Dŵr ar sail barhaus neu dros dro, gan gynnwys;

I. Taliadau a lwfansau sefydlog a chyfeintiol;

II. Unrhyw daliadau eraill a bennir yn y Ddogfen Taliadau Cyfanwerthu mewn perthynas ag amodau neu ddigwyddiadau penodol.

Ond nid yw'n cynnwys:

I. Unrhyw daliadau sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau untro neu ar wahân sy'n cael eu cyflawni'n unol â'r Telerau Gweithredol;

II. Nac unrhyw daliadau eraill a gyfrifir mewn perthynas â Chytundeb Arbennig gan gyfeirio at y Ffactor(au) perthnasol.

'**Rheoliadau ffitiadau dŵr**' yw'r Rheoliadau Cyflenwi Dŵr (Ffitiadau Dŵr) 1999.

'**Safle cymwys**' yw unrhyw safle cwsmer dibreswyl sy'n defnyddio mwy na 50 megalitr o ddŵr y flwyddyn.[2]

'**SPID**' iyw'r talfyriad ar gyfer Clustnodwr Pwynt Cyflenwi (rhif unigryw a ddefnyddir i glustnodi pwyntiau cyflenwi yn y Farchnad Trwyddedu Cyflenwadau Dŵr).

'**Tâl nad yw'n brif dâl'**yw unrhyw Daliadau Cyfanwerthu nad ydynt yn Brif Daliadau, ac er mwyn atal unrhyw amheuaeth, mae hyn yn cynnwys unrhyw daliadau sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau untro neu ar wahân sy'n cael eu cyflawni yn unol â'r Telerau Gweithredol neu sy'n cael eu pennu fel arall yn y Ddogfen Taliadau Cyfanwerthu mewn perthynas ag amgylchiadau neu ddigwyddiadau penodol.

'**Treth Ar Werth**' neu 'TAW' yw treth ar werthiannau y gellir ei chodi o dan Ddeddf Treth Ar Werth 1994 neu unrhyw dreth neu doll sy'n cymryd lle hynny.

## Ein hardal gwasanaethu

